| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad** | 29ain Medi 2011 |
| **Pwnc** | Adroddiad Rheoli Perfformiad – Chwarter 1 |
| **Deilydd Portffolio** | Byron Davies |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | Richard Parry Jones |
| **Swyddog Cyswllt** | Huw Jones 2108<br>Gethin Morgan 2111 |

**Rheswm am yr adroddiad:**

**Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd a wnaed ym mherfformiad y Cyngor yn erbyn trefniadau cynlluniedig yn y Cynllun Busnes Corfforaethol ar gyfer 2011/12 ac yn cydnabod strwythur adrodd newydd ar faterion sy'n ymwneud â pherfformiad gan gynnwys materion risg a sylwebaeth ar liniaru risg.**

## A. Rhagarweiniad / Cefndir / Materion

Mae sefydlu trefniadau rheoli perfformiad cryf wedi cael ei gydnabod fel un o elfennau craidd y rhaglen newid yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Mae trefniadau Rheoli Perfformiad cryf ac aeddfed yn un o'r meysydd a fydd yn hollbwysig i ffocws y Comisiynwyr yn 2011 ac mae'r adroddiad hwn yn dangos y newidiadau o ran sefydlu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddelio gyda materion rheoli perfformiad yn y Cyngor.

Yn wir, gwella trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor yw un o'r prif amcanion sy'n disgyn o dan un o'r blaenoriaethau strategol a fabwysiadwyd yng Nghynllun Busnes Corfforaethol 2011/12, sef darparu Gwasanaethau Effeithiol a Fforddiadwy.

Bydd y fframwaith rheoli perfformiad yn cael ei adolygu ymhellach fel rhan o'r broses hon ac mae gwaith yn parhau i gael ei wneud i ddatblygu proses cynllunio busnes gyda chysylltiadau clir i'r broses gyllidebol a'r broses cynllunio adnoddau dynol, a hynny er mwyn sicrhau Cynllun Busnes Corfforaethol cwbl integredig ar gyfer 2012/15.

I gynorthwyo i fonitro perfformiad, cyflwynwyd system Ffynnon (fel Teclyn Rheoli Perfformiad) a'i datblygu i fonitro cynnydd yn erbyn trefniadau cynlluniedig o fewn Cynlluniau Darparu Gwasanaeth a'r Cynllun Busnes Corfforaethol

Mae rhai gwasanaethau wedi symud ymlaen i raddau helaethach nag eraill o ran eu defnydd o'r system Ffynnon i gyflwyno gwybodaeth am berfformiad. I'r perwyl hwn, mae'r system rheoli perfformiad Ffynnon yn cael ei rhoi ar waith yn y gwasanaethau yn ystod chwarter 2 y flwyddyn ariannol hon. Cwblhawyd gwaith i sefydlu cynllun prosiect ar gyfer y fenter hon yn ystod chwarter 1 ac fe'i mabwysiadwyd gan y Tîm Rheoli a fydd yn goruchwylio cynnydd.

**Amserlenni**

Cynhaliwyd y rownd gyntaf o gyfarfodydd dan y trefniadau monitro cyfredol yn ystod yr wythnos Gorffennaf 25 - Gorffennaf 29, 2011. Mae cyfarfodydd pellach wedi eu trefnu ar gyfer yr wythnosau sy'n cychwyn -

31 Hydref 2011
6 Chwefror 2012
14 Mai 2012

Adroddir ar y rhain i'r Comisiynwyr?Sgriwtini Corfforaethol yn rheolaidd wedi hynny.

**Cyfarfod Chwarterol 1**

Roedd y rheini a enwir isod yn bresennol yn y cyfarfodydd perfformiad chwarterol -

Prif Weithredwr (Cadeirydd)
Cyfarwyddwyr / Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a Swyddogion Cyswllt Perfformiad a benodwyd
Dadansoddydd Perfformiad
Ymgynghorydd Perfformiad
Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen

Mewn perthynas â Swyddfa'r Prif Weithredwr, cafodd y cyfarfod ei gadeirio gan y Rheolydd Cynllun Busnes a Rhaglen ac fe gadeiriwyd y cyfarfod a roddodd sylw i'r Adran Addysg a Hamdden gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol. Cadeiriwyd y cyfarfod ar gyfer y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid. Cadeiriwyd y cyfan o'r cyfarfodydd eraill gan y Prif Weithredwr.

Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn nodi'r amcanion gwella a'r blaenoriaethau strategol sydd yn y Cynllun Busnes Corfforaethol. Mae sicrhau perfformiad yn erbyn targedau yn seiliedig ar statws Coch, Ambr a Gwyrdd (CAG). Mae'r statws CAG wedi ei ddiffinio fel a ganlyn -

| | |
|---|---|
| - | Yn nodi bod materion sylweddol wedi dod i'r amlwg a bod angen cymryd camau i'w cywiro – fel arall ystyrir na fydd modd cwrdd â'r dyddiad cwblhau. |
| - | Yn golygu bod problem, ond bod camau yn cael eu cymryd i'w datrys neu bod problem bosib wedi codi ond nad oes angen cymryd unrhyw gamau ar hyn o bryd, ond ei bod yn cael ei monitro'n ofalus. |
| - | Yn golygu bod pethau yn mynd yn unol â'r cynllun. Ni chafwyd gwybod am unrhyw faterion neu broblemau sy'n achosi pryder. |

## B – Ystyriaethau

Dygir sylw'r Bwrdd Comisiynwyr at Berfformiad Chwarter 1 y Cyngor yn erbyn ein Hamcanion Gwella a'n Blaenoriaethau Strategol dan Gynllun Corfforaethol 2011/12. Mae'r rhain ynghlwm yn ***Atodiadau A, B, C ac D*** ac yn seiliedig ar statws CAG yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn trefniadau a gynlluniwyd.

Yn gyffredinol, mae'r casgliadau hyn yn dangos –

Mewn perthynas â'n **Hamcanion Gwella** mae'r prosiectau perthnasol wedi eu hasesu ac maent yn rhoi'r darlun isod o berfformiad.

1. **Gweithredu yn fwy fel Busnes** -

   23% 33% 44%


2. **Gwireddu ein Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy** -

   36% 32% 32%

3. **Gwireddu ein Cytundeb Canlyniadau** –


   10% 50% 40%

4. **Prosiect Adnewyddiad Democrataidd** –




Ychydig o wybodaeth a gafwyd am y flaenoriaeth hon hyd yma oherwydd disgwylir y bydd gwaith yn cychwyn yn ystod Chwarter 2, gyda'r fenter yn cael ei lansio'n swyddogol yn Sioe Môn.  O ganlyniad, gwnaed penderfyniad i ddarparu statws CAG ar gyfer y flaenoriaeth wella hon.


Mewn perthynas â'n **Blaenoriaethau Strategol** mae'r ffrydiau gwaith perthnasol yn dangos darlun o berfformiad fel a ganlyn:

1. **Diogelu a Datblygu ein Heconomi** – 


   Mae gwybodaeth a gafwyd o'r cyfarfod chwarterol yn nodi bod y gwaith sy'n cael ei wneud i wireddu targedau a bennwyd ar gyfer 2011/12 yn mynd yn ei flaen yn ôl y disgwyl.

2. **Adeiladu a chefnogi cymunedau cynaliadwy -** 

   Mae gwybodaeth a gafwyd o'r cyfarfod chwarterol yn nodi bod y gwaith sy'n cael ei wneud i wireddu targedau a bennwyd ar gyfer 2011/12 yn mynd yn ei flaen yn ôl y disgwyl.


3. **Hyrwyddo cymunedau iach, diogel a theg -** 

   Mae gwybodaeth a gafwyd o'r cyfarfod chwarterol yn nodi bod y gwaith sy'n cael ei wneud i wireddu targedau a bennwyd ar gyfer 2011/12 yn mynd yn ei flaen yn ôl y disgwyl.

4. **Gwasanaethau effeithiol a fforddiadwy -** 

   Mae gwybodaeth a gafwyd o'r cyfarfod chwarterol yn nodi bod y gwaith sy'n cael ei wneud i wireddu targedau a bennwyd ar gyfer 2011/12 yn mynd yn ei flaen yn ôl y disgwyl.

5. **Codi proffil economaidd, cymdeithas ac amgylcheddol y Cyngor a'r Ynys** -

   Mae gwybodaeth a gafwyd o'r cyfarfod chwarterol yn nodi bod y gwaith sy'n cael ei wneud i wireddu targedau a bennwyd ar gyfer 2011/12 yn mynd yn ei flaen yn dda ond dygir sylw at feysydd perfformiad (yn Atodiad 1) lle mae angen sefydlu cyfres o feini prawf llwyddiant a strwythurau adrodd ar gyfer y trefniadau monitro perfformiad

yn chwarter 2.

Dygwyd sylw'r swyddogion at y gwendidau cysylltiedig yn y perfformiad cyfredol, ac mae gwaith yn cael ei wneud i wella data perfformiad ar gyfer chwarter 2. Dygir sylw'r Pwyllgor yn yr atodiadau sydd ynghlwm at y gwendidau yn y meysydd perfformiad hyn.

Cafwyd trafodaeth yn y cyfarfodydd hyn hefyd am y gweithgareddau Gwasanaeth a oedd yn **tanberfformio** ac y rhoddwyd statws Coch / Ambr iddynt yn ôl y teclyn rheoli perfformiad – Ffynnon.

**Perfformiad o ran Darparu Gwasanaethu**

Rhoddwyd sylw gofalus hefyd i faterion eraill sy'n gysylltiedig â pherfformiad a nodwyd y gweithgareddau / meysydd risg isod fel rhai sydd angen sylw yn ystod chwarter 2. Adroddwyd ar y materion hyn i'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol er sylw.

| MAES SY'N ACHOSI PRYDER NEU RISG | MESURAU LLINIARU / SYLWADAU / ARGYMHELLION |
|---|---|
| **Rheoli Risg**<br><br>Gofynnwyd i'r Gwasanaethau nodi eu risgiau gwasanaeth er mwyn cynorthwyo'r sefydliad i lunio rhestr gynhwysfawr o risgiau sy'n amlwg i'r Cyngor. | Bydd rheoli risg yn gorfforaethol yn golygu bod angen sgorio'r risgiau hyn gan ddefnyddio'r matrics sgorio a nodwyd yn y canllawiau rheoli risg ac wedyn bydd angen i'r Grŵp Llywio ar gyfer Rheoli Risg nodi'r categorïau o risg sy'n cael effaith ar y modd y darperir gwasanaethau a phenderfyniadau corfforaethol.<br><br>Mae'r Grŵp Llywio ar gyfer Rheoli Risg yn gweithio i roi sylw i'r mater erbyn diwedd chwarter 2. |
| **Blaenoriaethau Fforddiadwy / y sefyllfa Ariannol** | Y materion o bwys o ran y prosiectau Blaenoriaethau Fforddiadwy yw bod diffyg cyfeiriad a pherchenogaeth glir o'r |

| | |
|---|---|
| Amlinellir y sefyllfa mewn perthynas â'r prosiectau RhBF yn **Atodiad 'B'** ac adroddir ar statws CAG fel yr amlygwyd gan y Rheolwyr Prosiect.<br><br>Bydd adroddiad ar y sefyllfa ariannol ar ddiwedd Chwarter 1 yn cael sylw gan y Comisiynwyr yn eu cyfarfod dan **bwynt 7.** | prosiectau. Bydd nifer o brosiectau (megis Trefniadau Gweithio Hyblyg / Adolygiadau OMR / Amodau a Thelerau Teithio Staff) sydd a gobylgiadau traws adrannol yn debyg o beidio a gwireddu ei arbedion yn ystod 2011/12.<br><br>Yn ogystal, mae angen nodi rhagor o brosiectau cysylltiedig ar gyfer y tymor canol.<br><br>Cynigir bod angen galw cyfarfod o Fwrdd Gwella'r Comisiynwyr i roi sylw eto i'r materion adrodd sylfaenol.<br><br>Nodwyd agweddau pellach gan y Swyddogion ac mae'r rheini'n cael sylw rhwng y Gwasanaethau a'r Adran Gyllid. |
| **Adolygiadau / Adroddiadau ac Archwiliadau Allanol**<br><br>Gofynnwyd i'r holl Wasanaethau nodi, fel rhan o'u cyfarfodydd monitro ar gyfer y chwarter cyntaf, yr adroddiadau / adolygiadau ac archwiliadau a oedd ar waith yn eu gwasanaethau a gofynnwyd iddynt anfon y wybodaeth ymlaen (ar dempled a ddarparwyd) er mwyn sicrhau dealltwriaeth gorfforaethol o'r materion sydd wedi codi yn y sefydliad a sut roeddent yn cael sylw wedi hynny. | Mae'r Prif Weithredwr wedi nodi paham bod angen dull corfforaethol o ddelio gydag adolygiadau / adroddiadau ac archwiliadau allanol ac, o ganlyniad, bydd cyd-ddealltwriaeth a chydgytundeb ar y themâu cyffredin ar gyfer gwella a diwygio ar draws yr holl asiantaethau perthnasol yn bwysig o ran adeiladu'r momentwm angenrheidiol ar gyfer newid ac i gefnogi trefniadau adrodd cydweithredol yn y dyfodol. Bydd hefyd o gymorth i gefnogi aleiniad unrhyw newidiadau yn y Cyngor gyda'r rhaglen rhannu gwasanaethau sy'n esblygu ar gyfer y rhanbarth. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r Adain Archwilio Mewnol felly yn asesu digonolrwydd y trefniadau rheoli risg o fewn y system gyfredol ac yn asesu i ba raddau y mae'r rheolaethau wedi eu gweithredu, gyda golwg ar gynnig barn. |
| **Cytundebau Canlyniadau –**<br>Mae canlyniadau'r sefyllfa ar ddiwedd y chwarter cyntaf yn erbyn y targedau a bennwyd yn y cytundebau canlyniadau i'w gweld yn **Atodiad C**.<br>**Rhaid nodi** bod statws CAG pob CC wedi ei nodi gan y Swyddfa Rheoli Rhaglen ar ôl ystyried gwybodaeth a ddarparwyd mewn cyfarfodydd monitro diweddar. | Nodwyd gwendidau yn erbyn targedau a bennwyd ar gyfer Blwyddyn 1 o fewn y sefydliad (ac maent i'w gweld yn yr adroddiad perthnasol dan **bwynt 13** ar y rhaglen) ac mae gwaith yn cael ei wneud gan yr Adain Archwilio Mewnol i roi sicrwydd yr adroddir yn gywir ar berfformiad hunanasesu yn erbyn targedau yn y Cytundeb Canlyniadau ac y bydd y gwaith hwn wedi ei gwblhau o fewn yr amserlenni angenrheidiol yn y dyfodol. |
| **Nodi Cyfreithiau a Deddfwriaeth newydd**<br>Gall goblygiadau Mesurau a Deddfwriaeth newydd ynghyd â'u heffaith ar y Cyngor gael eu hystyried fel Risg Gorfforaethol a dylid sefydlu gweithdrefn i gyfyngu'r risg honno i'r eithaf. | Caiff y mater hwn sylw fel rhan o Raglenni Gwaith Corfforaethol a Gwasanaeth ac fe gaiff ei gydnabod fel Risg Gorfforaethol yn y matrics risg sy'n cael ei ddatblygu dan y Grŵp Llywio ar gyfer Rheoli Risg. |
| | |

| Materion eraill | |
|---|---|
| Nodwyd, fel pryder, fod elfen sylweddol o ddiffyg cydymffurfiaeth gyda pholisïau corfforaethol a bod hwn yn fater sy'n cael ei nodi'n rheolaidd gan y Tîm Archwilio Mewnol. Mynegwyd pryder o ran adnabod porthgeidwad ar gyfer y polisïau hyn fel bod modd rhoi sicrwydd i'r Canol Corfforaethol bod y polisïau perthnasol yn cael eu tracio a'u gweithredu'n briodol. | Cynhaliwyd adolygiad thematig i ddwyn ynghyd y gwendidau rheolaidd a nodwyd ac fe'i hanfonwyd ymlaen i'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol i ddarparu cyfeiriad ac arweiniad corfforaethol ar y mater hwn. |
| Mynegwyd pryder ynghylch diffyg gosod targedau pob chwarter o fewn cynlluniau darparu'r gwasanaethau. | Bydd y Dadansoddydd Perfformio yn gweithio gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth i nodi targedau priodol ar gyfer chwarterau 2, 3, a 4. |

## CH – Crynodeb

Gwella trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor yw un o'r prif amcanion dan un o'r blaenoriaethau strategol a fabwysiadwyd yng Nghynllun Busnes Corfforaethol 2011/12, sef darparu Gwasanaethau Effeithiol a Fforddiadwy.

Mae'r dull hwn yn ystod chwarter 1, sef dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn nodi'r sefyllfa yn erbyn y trefniadau a gynlluniwyd mewn perthynas â'r canlyniadau sydd i'w cyflawni fel rhan o Amcanion Gwella a Blaenoriaethau Strategol y Cyngor. Mae angen rhoi pwyslais yn benodol yn ystod chwarter 2 ar yr agweddau hynny ar berfformiad sydd wedi eu nodi fel rhai statws COCH neu AMBR yn yr atodiadau sydd ynghlwm.

Mae'r wybodaeth yn rhoi darlun cadarnhaol o berfformiad yn chwarter 1 ond nodwyd meysydd penodol ar gyfer eu gwella gyda sylw amlwg yn cael ei dynnu at yr amcanion gwella a fydd yn cael ei herio a'i datblygu ymhellach yn ystod chwarter 2.

## D – Argymhelliad

Awgrymir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried a chynnig sylwadau ar y sefyllfa yn gyffredinnol o ran perfformiad Chwarter 1 fel amlinellir yn yr adroddiad hwn

Argymellir hefyd fod y Pwyllgor yn cymeradwyo yr argymhellion roddir ymlaen i'r Comisiynwyr ar 5ed Medi (isod) fel bod data perfformiad cadarn yn cael ei gyfathrebu mewn modd mor cynhwysfawr a sy'n bosib -

1. Gofyn i'r Comisiynwyr gyflwyno sylwadau ar y cynnydd a wnaed a nodi sylwadau Swyddogion ynghylch materion gweithredol sy'n cael sylw.
2. Gofynnir i'r Comisiynwyr alw'r cyfarfod cyntaf o'r Bwrdd Gwella cyn gynted ag y bo modd yn Chwarter 2.
3. Bod Bwrdd y Comisiynwyr yn cymeradwyo the strwythur adrodd a'r berfformiad newydd a'i bod yn gofyn i Grwp Arweinyddiaeth y Cyngor i ofyn i Swyddogion ddatblygu methodoleg Cytundeb Canlyniadau (wedi'i selio ar Ffynnon) ar gyfer yr adroddiadau pellach ar berfformiad a gwelliant ar gyfer Chwarter 2.
4. Bod y strwythur adrodd ar berfformiad a methodoleg newydd yn cael ei ehangu i Adroddiad Gwelliant y Comisiynwyr ar y 10 blaenoriaeth rheolaeth corfforaethol ar gyfer Chwarter 2.
5. Bod y strwythur adrodd ar berfformiad newydd yn cael ei ddefnyddio i adrodd ar berfformiad Cynllun Gweithredu'r Adran Blant o wasanaethau Cymdeithasol i gyfarch y ffaeleddau a nodwyd.
6. Bod Adroddiadau Perfformiad a Gwelliant i'r dyfodol yn cael ei adrodd i Fwrdd gwella'r y Comisiynwyr ar ffurf chwarterol o'r 2il Chwarter eleni ymlaen ym mis Hydref.

| | |
|---|---|
| **Enw awdur yr adroddiad:** | Gethin Morgan |
| **Teitl Swydd** | Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen |
| **Dyddiad** | 17.08.11 |

**Atodiadau:**

Atodiad A – Adroddiad Rheoli Perfformiad Chwarter 1 (17.08.11)
Atodiad B – Adroddiad Rheoli Perfformiad – RhBF Chwarter 1 (17.08.11)
Atodiad C – Adroddiad Rheoli Perfformiad CC Chwarter 1 (17.08.11)
Atodiad D - Diogelu a Datblygu'r Economi - Chwarter 1 (17.08.11)
Atodiad E – Adeiladu a Chefnogi Cymunedau Cynaliadwy - Chwarter 1 (22.08.11)
Atodiad F – Hyrwyddo Cymunedau Diogel, Iach a Theg - Chwarter 1 (22.08.11)
Atodiad G – Gwasanaethau Effeithiol a Fforddiadwy - Chwarter 1 (22.08.11)
Atodiad H – Codi proffil economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y Cyngor a'r Ynys Chwarter 1 (22.08.11)

| |
|---|
| |

| **Papurau Cefndirol:** |
|---|
| Cynllun Busnes Corfforaethol 2011/12 @ www.ynysmon.gov.uk |

Atodiad A

| Blaenoriaeth Strategol: Amcanion Gwella 2011/12 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth Datblygu** *(Byddwn yn)* **: Gweithredu mwy fel busnes** | | | | | | | | |
| **Camau allweddol** (trwy...) | **Erbyn pryd** | **Meini Prawf / Mesur Llwyddiant –** (Sut rydym yn gwybod pan ydych wedi cyflawni'r cam allweddol?) *Dangosydd Perfformiad /Cam a ymgymerir gennych / neu'r ddau* | **Chwarter 1** | **Chwarter 2** | **Chwarter 3** | **Chwarter 4** | **Statws a Thuedd CMG** | **Risgiau a Sylwadau ar Liniaru'r Risgiau** |
| Datblygu Ymgysylltiad â Dinasyddion a'r Gymuned | Hyd '11 | Fframwaith / strategaeth gynhwysfawr mewn perthynas ag ymgysylltu â'r gymuned a fydd yn llywio ymarfer ymgynghori corfforaethol gyda dinasyddion a chymunedau Ynys Môn | | Targed | Targed | Targed | | Yr allbynnau rhagamcanol a gyflawnwyd ar gyfer y cyfnod. Mae dyddiad gorffen y prosiect wedi'i ymestyn i ddiwedd Hydref 2011. |
| Adolygiad Ehangach o Strwythur y Cygnor | Ebr '10<br>Medi '11 | Cyfrif diwygiedig o weithgorau corfforaethol mewnol | | Targed | Targed | Targed | | Gwaith gwaelodlin a gwblhawyd yn dilyn cynnydd mewn capasiti. Y prosiect wedi'i ymestyn i'w gwblhau yn Ch2 a disgwylir adroddiad cau'r prosiect ym mis Medi. |
| Gwella Technegau Sefydliadol / Rheoli | Dechrau<br>Gorffen | | | Targed | Targed | Targed | | Dim Meini Prawf / Mesur llwyddiant wedi'u nodi.<br>Mesur Lliniaru<br>Meini prawf llwyddiant wedi'u dynodi a strwythurau adrodd wedi'u sefydlu. |

Atodiad A

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu Strategaeth TG | Gorff'10<br>Hyd '11 | Strategaeth TG fabwysiedig ar gyfer y sefydliad | | Targed | Targed | Targed | | Derbyniwyd adroddiad cau prosiect gan y Swyddfa Rheoli Prosiectau ac mae'r strategaeth TG wedi'i mabwysiadu gan Dîm Rheoli'r Penaethiaid Gwasanaeth.<br><br>Yn ystod Ch2, ail-ymwelir â'r strategaeth yn dilyn argymhellion yr Adolygiad o Gymheiriaid TG ac, i'r pwrpas hwn, mae'r dyddiad gorffen wedi'i ymestyn yn unol â hynny. |
| Gwella ymgysylltiad Cyllid a datblygu dulliau cost a budd ar gyfer eu blaenoriaethu | Ebr '11<br>Mawrth '12 | | | Targed | Targed | Targed | | Mae materion eraill wedi cymryd lle'r maes gwaith hwn ac ni fydd yn parhau fel prosiect i mewn i 2011/12. |
| Datblygu Capasiti i Reoli Newid ac Ethos Môn | Ebr '11<br>Mawrth '12 | Set unedig o werthoedd a chredau a fabwysiadir gan staff ar draws y sefydliad | | Targed | Targed | Targed | | Cafwyd problemau wrth recriwtio cymorth i yrru'r fenter. Yn obeithiol o recriwtio a gwneud cynnydd yn unol â hynny yn ystod chwarter 2. |
| Cynllun Gweithredu Cynllunio | Dechrau<br>Mawrth '12 | | | Targed | Targed | Targed | | Y prosiect yn mynd yn ei flaen yn dda.<br><br>**Risg** – adnoddau annigonol fel y mae gwaith Wylfa'n dechrau'n o ddifrif ac yn sgil toriadau staff o ganlyniad i'r Adolygiad o Reolaeth Weithredol (*OMR*) |

Atodiad A

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwella Cynllunio Busnes | Mai '11<br>Mawrth '12 | Cynllun Busnes 3 blynedd cwbl weithredol ac integredig gyda chysylltiadau clir rhwng y broses gynllunio / gyllidebol a chynllunio adnoddau dynol | | Targed | Targed | Targed | | **Risg** – Diffyg derbyniad a chydymffurfio â'r ffordd newydd ymlaen.<br>**Mesur Lliniaru** – Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad yn cael ei ddatblygu i ymgorffori ymgynghoriad mwy ystyrlon gyda dinasyddion a chymunedau. Strategaeth gyfathrebu yn cael ei datblygu i'w rhoi ar waith fesul cam. |
| Gwella Rheoli Prosiectau | Ebr '11<br>Mawrth '12 | Derbyniad eang ledled y sefydliad o ddulliau *YMPM* mewn perthynas â rheoli adnoddau dynol | | Targed | Targed | Targed | | Yn darparu hyfforddiant rheoli prosiect chwarterol i sicrhau fod gan Swyddogion y ddealltwriaeth sydd ei hangen i reoli prosiectau.<br>Prosiectau Adfer a Blaenoriaethau Fforddiadwy yn cael eu holrhain gan y Swyddfa Rheoli Prosiectau.<br>**Risg** – diffyg cydymffurfio gyda strwythurau adrodd Corfforaethol yn arwain i ddiffyg dealltwriaeth Corfforaethol o ddatblygu prosiectau.<br>**Mesur Lliniaru** - y Swyddfa Rheoli Prosiectau yn olrhain Rheolwyr Prosiectau yn barhaus. Adroddiad i'r *SLG* ar ddatblygu prosiectau i'w gylchredeg ym mis Medi. |

Atodiad B

| **Blaenoriaeth Strategol:** Amcanion Gwella 2011/12 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth Datblygu** _(Byddwn yn)_ **:** Gwireddu ein Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy | | | | | | | | |
| **Camau allweddol** (trwy...) | **Erbyn pryd** | **Meini Prawf / Mesur Llwyddiant –** (Sut rydym yn gwybod pan ydych wedi cyflawni'r cam allweddol?) *Dangosydd Perfformiad /Cam a ymgymerir gennych / neu'r ddau* | **Chwarter 1** | **Chwarter 2** | **Chwarter 3** | **Chwarter 4** | **Statws a Thuedd CMG** | **Risgiau a Sylwadau ar Liniaru'r Risgiau** |
| Teledu Cylch Cyfyng – Cydweithrediad mewn perthynas â TCC | 01-10 2010<br>16-09 2011 | Disgwylir i'r prosiect wireddu £60k yn 2012/13 | | | | | | 1. Nid yw adrodd rheolaidd yn digwydd ar lefel ranbarthol<br>2. Staff allweddol ar y prosiect wedi gadael – ddim gyda CSYM<br>3. Grŵp Tasg a Gorffen Traws Awdurdod wedi'i benodi i weithio ar gynllun newydd. Y cyfarfod cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer 27ain Gorffennaf 2011. |
| *FWA* – Trefniadau Gweithio Hyblyg | 01-01 2011<br>Dim dydd. gorffen | Y prosiect i wireddu arbedion o:<br>£50k yn 2011/12<br>£25k yn 2012/13 | | | | | | Heb bennu rheolwr prosiect<br>Diffyg cyfeiriad corfforaethol<br>Diffyg perchnogaeth corfforaethol |
| *OMR* – Adolygiadau *OMR* | 01-01 2011<br>Dim dydd. gorffen | Adolygiad o Reolaeth Sefydliadol yn gwireddu arbedion o £800k yn 2011/12 a<br>£100k yn 2012/13 | | | | | | Datblygiad da gyda dros £1m o arbedion wedi'i gwireddu, er ei fod yn debygol y bydd yr arbedion yn 8 i 10 mis yn hyrach na blwyddyn gyfan 2011/12.<br>Ymddengys fod y targed gwreiddiol o £900k yn uchelgeisiol iawn gan fod rhai |

Atodiad B

| Blaenoriaeth Strategol: Amcanion Gwella 2011/12 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth Datblygu** *(Byddwn yn)* **:** Gwireddu ein Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy | | | | | | | | |
| **Camau allweddol** (trwy...) | **Erbyn pryd** | **Meini Prawf / Mesur Llwyddiant –** (Sut rydym yn gwybod pan ydych wedi cyflawni'r cam allweddol?) *Dangosydd Perfformiad /Cam a ymgymerir gennych / neu'r ddau* | **Chwarter 1** | **Chwarter 2** | **Chwarter 3** | **Chwarter 4** | **Statws a Thuedd CMG** | **Risgiau a Sylwadau ar Liniaru'r Risgiau** |
| | | | | | | | | gwasanaethau angen ail-fuddsoddiad.<br><br>Heb bennu rheolwr prosiect<br>Diffyg cyfeiriad corfforaethol<br>Diffyg perchnogaeth corfforaethol<br>Bydd arbedion yn cael eu cyflawni (manylion gan Cyllid) |
| *STC* – Amodau a Thelerau Teithio Staff | 01-01 2011<br>Dim dydd. gorffen | Disgwylir i'r prosiect wireddu arbedion o £280k yn 2011/12 a £70k arall yn 2012/13 | | | | | | Heb bennu rheolwr prosiect<br>Diffyg cyfeiriad corfforaethol<br>Diffyg perchnogaeth corfforaethol |
| *AM* – Rheoli Asedau | 01-03 2010<br>Parhaus | Prosiect i wireddu cyfanswm arbedion o £200k, wedi'u rhannu yn:<br>£25k yn 2011/12<br>£25k yn 2012/13<br>£25k yn 2013/14<br>£50k yn 2014/15<br>£75k yn 2015/16 | | | | | | Risg o beidio â chyflawni.<br><br>Angen i'r rheolwr prosiect gyfarfod gyda noddwr y prosiect i gytuno ar amserlen ar gyfer tasgau. |

Atodiad B

**Blaenoriaeth Strategol:** Amcanion Gwella 2011/12

**Blaenoriaeth Datblygu** *(<u>Byddwn yn)</u>* **:** Gwireddu ein Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy

| **Camau allweddol** <u>(trwy...)</u> | **Erbyn pryd** | **Meini Prawf / Mesur Llwyddiant –** <u>(Sut rydym yn gwybod pan ydych wedi cyflawni'r cam allweddol?)</u><br>*Dangosydd Perfformiad /Cam a ymgymerir gennych / neu'r ddau* | **Chwarter 1** | **Chwarter 2** | **Chwarter 3** | **Chwarter 4** | **Statws a Thuedd CMG** | **Risgiau a Sylwadau ar Liniaru'r Risgiau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *HCO*– Darpariaeth Gofal Gartref | Heb ddechrau<br>Dim dydd. gorffen | Y prosiect i wireddu cyfanswm arbedion o £150k, a rannwyd yn:<br>£110k yn 2011/12<br>£20k yn 2012/13<br>£20k yn 2013/14 | | | | | | Yn disgwyl arwyddo cytundeb ffurfiol gyda chynllun prosiect yn ei le.<br>Mae angen i'r cytundeb tymor hir fod yn addas i'r pwrpas ar gyfer y ddau barti, gyda chydraddoldeb yn amlwg drwyddo draw. |
| *RLD* – Ailfodelu Anableddau Dysgu | 01-04 2010<br>31-03 2011 | Disgwylir i'r prosiect wireddu £300k, a rannwyd yn gyfartal dros y 3 blynedd ariannol nesaf. | | | | | | Mae natur anodd y prosiect yn amlygu angen am *PID* newydd.<br>Nid yw cynlluniau ailstrwythuro yn gyflawn eto ond maent yn agos i fod yn gyflawn.<br>*PID* /cynllun newydd disgwyliedig erbyn diwedd Ch2. |
| *TRSP* – Lleihau Costau Cludiant | 01-07 2010<br>31-12 2011 | Mae'r arbedion sydd i'w gwireddu wedi'u rhannu dros y ddwy flynedd ariannol fel a ganlyn:<br>£50k yn 2011/12<br>£100k yn 2012/13 | | | | | | Nodir y risgiau fel a ganlyn -<br>A all y cydweithredu wireddu'r arbedion a ragamcanir?<br>Beth yw'r effaith/mesur yn erbyn yr ôl-troed carbon?<br>Materion IaD o ran cerdded yn ôl a blaen i'r ysgol<br>Camau lliniaru – ceisir arweiniad rhanbarthol ar frys i gael sicrwydd o ran |

Atodiad B

| Blaenoriaeth Strategol: Amcanion Gwella 2011/12 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth Datblygu** *(Byddwn yn)* **:** Gwireddu ein Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy | | | | | | | | |
| **Camau allweddol** (trwy...) | **Erbyn pryd** | **Meini Prawf / Mesur Llwyddiant –** (Sut rydym yn gwybod pan ydych wedi cyflawni'r cam allweddol?) *Dangosydd Perfformiad /Cam a ymgymerir gennych / neu'r ddau* | **Chwarter 1** | **Chwarter 2** | **Chwarter 3** | **Chwarter 4** | **Statws a Thuedd CMG** | **Risgiau a Sylwadau ar Liniaru'r Risgiau** |
| | | | | | | | | p'un a ellir cyflawni arbedion. |
| *HWV* – Priffyrdd Amrywiol | 01-10 2010<br>31-04 2016 | Y prosiect yn mynd fel y bwriadwyd gydag arbedion rhagamcanol o:<br>£61k yn 2011/12<br>£42k yn 2012/13 | | | | | | Nodwyd risg, os profwn dywydd gwael yn chwarter 2, bydd effaith andwyol ar incwm o'r meysydd parcio.<br>Mwy o incwm o barcio ceir – £4,000 yn llai o incwm oherwydd oediad o 3 mis mewn gweithredu Gorchmynion Traffig newydd. |
| *RSLC* – Ailstrwythuro Hamdden/Diwylliant | 01-04 2010<br>31-03 2014 | Bydd y prosiect yn gwireddu arbedion o dros £303k erbyn diwedd 2013/14, fel a ganlyn:<br>£215,000 yn 2011/12<br>£90,000 yn 2012/13 | | | | | | Risg o £90k o dangyflawniad yn bodoli yn erbyn y targedau gwreiddiol oherwydd arweiniad corfforaethol newydd.<br>Rheolwr prosiect yn gweithio ar y cynllun diwygiedig ar gyfer monitro ac adrodd rheolaidd. Her pellach ar y sefyllfa i'w wneud gan yr Adran Gyllid. |

Atodiad B

**Blaenoriaeth Strategol:** Amcanion Gwella 2011/12

**Blaenoriaeth Datblygu** (Byddwn yn) **:** Gwireddu ein Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy

| **Camau allweddol** (trwy...) | **Erbyn pryd** | **Meini Prawf / Mesur Llwyddiant –** (Sut rydym yn gwybod pan ydych wedi cyflawni'r cam allweddol?)<br>Dangosydd Perfformiad /Cam a ymgymerir gennych / neu'r ddau | **Chwarter 1** | **Chwarter 2** | **Chwarter 3** | **Chwarter 4** | **Statws a Thuedd CMG** | **Risgiau a Sylwadau ar Liniaru'r Risgiau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| RCA –Lleihau'r Dewis o ran Mynediad i Daliadau | 01-07 2010<br>30-09 2011 | Disgwylir i'r prosiect wireddu arbedion o £100k, wedi'u rhannu'n gyfartal dros y ddwy flynedd ariannol nesaf. | | | | | | Nodir y **risgiau** fel a ganlyn -<br>Lleihau nifer yr opsiynau talu i'r cwsmer sy'n amharod i dalu drwy fodd electronig<br>Bydd angen cynyddu darpariaeth ar gyfer dyledion drwg<br>Ydi cau'r swyddfeydd ariannol yn ddewis hyfyw?<br><br>Bydd angen i adroddiad a ddisgwylir yn ystod Ch2 wireddu'r arbedion a darparu dulliau hyfyw eraill i'r cwsmer wneud taliadau mewn modd cost effeithiol ac amserol. |

Atodiad B

| **Blaenoriaeth Strategol:** Amcanion Gwella 2011/12 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth Datblygu** (Byddwn yn) **:** Gwireddu ein Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy | | | | | | | | |
| **Camau allweddol** (trwy...) | **Erbyn pryd** | **Meini Prawf / Mesur Llwyddiant –** (Sut rydym yn gwybod pan ydych wedi cyflawni'r cam allweddol?) Dangosydd Perfformiad /Cam a ymgymerir gennych / neu'r ddau | **Chwarter 1** | **Chwarter 2** | **Chwarter 3** | **Chwarter 4** | **Statws a Thuedd CMG** | **Risgiau a Sylwadau ar Liniaru'r Risgiau** |
| SPD – Gostyngiad i Rywun Sengl | 22-04 2011<br>16-09 2011 | Bydd y prosiect hwn yn gwireddu arbedion disgwyliedig o £45k dros y ddwy flynedd ariannol nesaf. | | | | | | Dim byd cynhennus i'w adrodd. |

| **Blaenoriaeth Strategol:** Amcanion Gwella 2011/12 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth Datblygu** *(Byddwn yn)* **:** Gwireddu ein Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy | | | | | | | | |
| **Camau allweddol** (trwy...) | **Erbyn pryd** | **Meini Prawf / Mesur Llwyddiant –** (Sut rydym yn gwybod pan ydych wedi cyflawni'r cam allweddol?) *Dangosydd Perfformiad /Cam a ymgymerir gennych / neu'r ddau* | **Chwarter 1** | **Chwarter 2** | **Chwarter 3** | **Chwarter 4** | **Statws a Thuedd CMG** | **Risgiau a Sylwadau ar Liniaru'r Risgiau** |
| *VAM* – Atyniadau i Ymwelwyr a Morwrol | 01-07 2010 | Disgwylir i'r prosiect wireddu cyfanswm o £25k yn y flwyddyn ariannol gyfredol 2011/12 | | | | | | Datganiad ariannol llawn ar gael erbyn diwedd Ch2 i gael gwybod y tebygolrwydd o |

Atodiad B

| **Blaenoriaeth Strategol:** Amcanion Gwella 2011/12 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth Datblygu** *(Byddwn yn)* **:** Gwireddu ein Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy | | | | | | | | |
| **Camau allweddol** (trwy...) | **Erbyn pryd** | **Meini Prawf / Mesur Llwyddiant –** (Sut rydym yn gwybod pan ydych wedi cyflawni'r cam allweddol?) *Dangosydd Perfformiad /Cam a ymgymerir gennych / neu'r ddau* | **Chwarter 1** | **Chwarter 2** | **Chwarter 3** | **Chwarter 4** | **Statws a Thuedd CMG** | **Risgiau a Sylwadau ar Liniaru'r Risgiau** |
| | 31-03 2012 | | | | | | | lwyddo (tymor yn dod i ben ym Medi 2011). |
| *RLS* – Rhesymoli'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd | 01-07 2010<br>31-03 2011 | Amcangyfrifir y bydd y prosiect yn gwireddu £86k, wedi'u rhannu yn:<br>£41k yn 2011/12<br>£10k yn 2012/13<br>£35k yn 2013/14 | | | | | | Yr eitem wedi'i chynnwys yn ddiofal yn 2011/12 o gyllideb 2010/11, felly nid oes modd cyflawni £21k. |
| *LOOS* – Cynllun Toiledau Cymunedol | 01-11 2010<br>01-07 2011 | Rhagamcanir y bydd yn arbed £30k yn 2011/12 | | | | | | Dim byd cynhennus i'w adrodd |

| **Blaenoriaeth Strategol:** Amcanion Gwella 2011/12 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth Datblygu** <u>*(Byddwn yn)*</u> **:** Gwireddu ein Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy | | | | | | | | |
| **Camau allweddol** <u>(trwy...)</u> | **Erbyn pryd** | **Meini Prawf / Mesur Llwyddiant –** <u>(Sut rydym yn gwybod pan ydych wedi cyflawni'r cam allweddol?)</u> *Dangosydd Perfformiad /Cam a ymgymerir gennych / neu'r ddau* | **Chwarter 1** | **Chwarter 2** | **Chwarter 3** | **Chwarter 4** | **Statws a Thuedd CMG** | **Risgiau a Sylwadau ar Liniaru'r Risgiau** |
| *FM* – Rheoli'r Fflyd | 01-04 2010<br>31-03 2014 | Rhagamcanir arbedion o £65k dros y 3 blynedd nesaf:<br>£15k yn 2011/12<br>£30k yn 2012/13<br>£20k yn 2013/14 | | | | | | Dim byd cynhennus i'w adrodd |
| *TLC* – Sefydlu Gwasanaeth Teleofal Rhanbarthol | 01-04 2010<br>30-06 2011 | Arbedion rhagamcanol o £50k yn 2015/16 | | | | | | Derbynnwyd adroddiad ar gau'r prosiect gan Abbey Harvey (Cyngor Bwrdeistref Conwy) i'w weithredu.<br><br>Statws y prosiect 'yn Fyw' a rheolwr rhanbarthol wedi'i benodi.<br><br>Yr agwedd Teledu Cylch Cyfyng wedi'i wahanu i bob rhanbarth lleol ar gyfer eu hanghenion hwy eu hunain – peth gwaith yn dal heb ei gwblhau.<br>Grŵp Tasg a Gorffen newydd wedi'i benodi i ganolbwyntio ar yr hyn y gall y prosiect Teledu Cylch Cyfyng ei gyflawni'n lleol. |

Atodiad B

| **Blaenoriaeth Strategol:** Amcanion Gwella 2011/12 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth Datblygu** *(Byddwn yn)* **:** Gwireddu ein Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy | | | | | | | | |
| **Camau allweddol** (trwy...) | **Erbyn pryd** | **Meini Prawf / Mesur Llwyddiant –** (Sut rydym yn gwybod pan ydych wedi cyflawni'r cam allweddol?) *Dangosydd Perfformiad /Cam a ymgymerir gennych / neu'r ddau* | **Chwarter 1** | **Chwarter 2** | **Chwarter 3** | **Chwarter 4** | **Statws a Thuedd CMG** | **Risgiau a Sylwadau ar Liniaru'r Risgiau** |
| | | | | | | | | |
| *EDC* –Cydweithrediad ym maes Addysg | 01-09 2011<br>Dim dydd. gorffen | Y prosiect i ddechrau ym Medi 2011 | | | | | | |
| *ED* – Ymgyrch Arbedion | 29-06 2010<br>No End Date | Dylai'r prosiect wireddu'r ffigur diwygiedig ar gyfer arbedion o £50k yn 2011/12 | | | | | | Angen cynllun i wireddu £50k o 10 syniad a gyflwynir gan y grŵp.<br>Yn disgwyl cynllun gydag arbedion wedi'u rhannu ar draws cyllidebau a ddynodwyd i'w cadarnhau yn ystod Ch2 |
| *TRANS* – Proses Drafodol | 01-10 2011<br>31-03 2014 | Mae'r prosiect i fod i ddechrau yn 3ydd chwarter 2011/12 | | | | | | |

Atodiad B

| **Blaenoriaeth Strategol:** Amcanion Gwella 2011/12 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth Datblygu** *(Byddwn yn)* **:** Gwireddu ein Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy | | | | | | | | |
| **Camau allweddol** (trwy...) | **Erbyn pryd** | **Meini Prawf / Mesur Llwyddiant –** (Sut rydym yn gwybod pan ydych wedi cyflawni'r cam allweddol?) *Dangosydd Perfformiad /Cam a ymgymerir gennych / neu'r ddau* | **Chwarter 1** | **Chwarter 2** | **Chwarter 3** | **Chwarter 4** | **Statws a Thuedd CMG** | **Risgiau a Sylwadau ar Liniaru'r Risgiau** |
| *PP* – Gwarchod y Cyhoedd | 01-06 2010<br>01-04 2016 | Y prosiect i wireddu arbedion o £305k wedi'u rhannu dros y 3 blynedd:<br>£10k yn 2011/12<br>£235k yn 2012/13<br>£60k yn 2013/14 | | | | | | Materion o ran cydweithredu rhwng Ynys Môn a Chyngor Sir Gwynedd:<br>Mae gan y ddau awdurdod gynlluniau busnes hollol wahanol<br>Mae materion cyfreithiol yn parhau heb eu datrys<br>Mae gan Ynys Môn a Gwynedd strwythurau AD yn eu lle a rhai y cynlluniwyd ar eu cyfer yn y dyfodol sy'n hollol wahanol. |

Atodiad B

| Blaenoriaeth Strategol: Amcanion Gwella 2011/12 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth Datblygu** *(Byddwn yn)* **:** Gwireddu ein Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy | | | | | | | | |
| **Camau allweddol** (trwy...) | **Erbyn pryd** | **Meini Prawf / Mesur Llwyddiant –** (Sut rydym yn gwybod pan ydych wedi cyflawni'r cam allweddol?) *Dangosydd Perfformiad /Cam a ymgymerir gennych / neu'r ddau* | **Chwarter 1** | **Chwarter 2** | **Chwarter 3** | **Chwarter 4** | **Statws a Thuedd CMG** | **Risgiau a Sylwadau ar Liniaru'r Risgiau** |
| RS – Rhesymoli Ysgolion | 01-10 2010<br>01-04 2013 | Y prosiect i wireddu arbedion o £497k wedi'u rhannu dros 3 blynedd:<br>£270k yn 2011/12<br>£127k yn 2012/13<br>£100k yn 2013/14 | | | | | | Dim byd cynhennus i'w adrodd. |

Atodiad C

| **Blaenoriaeth Strategol:** **Amcanion Gwella 2011/12** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth Datblygu** *Byddwn yn):* Sicrhau ein bod yn gwireddu ein Cytundebau Canlyniadau: | | | | | | | | |
| **Camau allweddol** (erbyn…) | **Erbyn pryd** | **Meini Prawf / Mesur Llwyddiant –** (Sut rydym yn gwybod pan ydych wedi cyflawni'r cam allweddol?) *Dangosydd Perfformiad /Cam a ymgymerir gennych / neu'r ddau* | **Chwarter 1** | **Chwarter 2** | **Chwarter 3** | **Chwarter 4** | **Statws a Thuedd CMG** | **Risgiau a Sylwadau ar Liniaru'r Risgiau** |
| **(CC1) Cytundeb Canlyniad 1**<br>Oes hirach ac o ansawdd well gyda chanlyniadau tecach i bawb.<br><br>**Yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni:-**<br>Gwell Iechyd gydol oes | Dechrau<br><br>1af Ebrill 2011<br><br>Gorffen<br><br>31ain Mawrth<br><br>2012 | A. plant a phobl ifanc ym Môn yn byw bywydau egnïol ac yn tyfu i fod yn oedolion egnïol<br><br>B. oedolion ym Môn yn fwy egnïol, yn amlach, drwy gydol eu hoes<br><br>C. annibynniaeth er mwyn hybu iechyd a phobl yn rheoli salwch/cyflyrau cronig | Targed | Targed | Targed | Targed | | CC1B3 –Llai o gyfleoedd i oedolion gymryd rhan mewn Cynllun Nofio Am Ddim yn Chwarter 1.<br>Cynlluniau wedi'u paratoi i gynyddu nifer y cyfleoedd yn y Chwarter nesaf. |
| **(CC2) Cytundeb Canlyniad 2**<br>Mae Gofal Cymdeithasol da yn caniatáu i bobl gael ansawdd bywyd gwell | Dechrau<br><br>1af Ebrill 2011 | A. Defnyddio technoleg i wella'r profiad i gwsmeriaid<br><br>B. Gwasanaeth ymateb | Targed | Targed | Targed | Targed | | Dim materion arwyddocaol wedi'u hadrodd i gyfarfod Chwarter 1 o'r Cyfarfod Monitro Perfformiad Chwarterol (Adran |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni:-** Darperir cefnogaeth fel y gall pobl fyw bywydau annibynnol | Gorffen<br>31ain Mawrth<br>2012 | rhagweithiol | | | | | | Tai a GC) |
| **(CC3) Cytundeb Canlyniad 3** Mae economi cryf a ffyniannus yn helpu i leihau tlodi<br><br>**Yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni:-** Llai o bobl yn byw mewn tlodi | Dechrau<br>1af Ebrill 2011<br><br>Gorffen<br>31ain Mawrth<br>2012 | A. Mwy yn derbyn budd-daliadau.<br>B. Mwy o ddefnydd o dechnoleg ar gyfer delio â hawliadau.<br>C. Delio â hawliadau'n gyflymach.<br>D. Pobl yn cael eu help i fynd yn ôl i weithio. | Targed | Targed | Targed | Targed | | Mwy yn cael prydau ysgol am ddim. Mewn perthynas â'r ffurflen budd-dal electronig, rhaid datrys materion o ran cael mynediad i'r gweinydd er mwyn atal Addysg rhag cael mynediad i wybodaeth nad yw'n uniongyrchol berthnasol iddynt hwy. Cwmni meddalwedd i ddatrys materion o ran mynediad i'r gweinydd i gael gwybodaeth. Hyfforddi staff budd-daliadau mewn perthynas â gweithdrefnau llif gwaith diwygiedig. Yr amserlen ddisgwyliedig yw diwedd Awst 2011. Cynnal cymhariaeth o gofnodion Budd-dal gyda chofnodion Addysg erbyn Mawrth 2012.<br><br>Yn dal i ddisgwyl ffigyrau diwygiedig ar gyfer y Prosiect Cysylltiadau Gwaith Newydd yn dilyn penderfyniad WEFO (gostyngiad disgwyliedig o 20%) sydd angen ei drafod gyda LlC. |
| **(CC4) Cytundeb Canlyniad 4** Plant a Phobl Ifanc yn tyfu i fod yn ddinasyddion gweithredol ac yn cyflawni'r safonau uchaf bosib o ran | Dechrau<br>1af Ebrill 2011 | A. pobl ifanc ym Môn yn dilyn ystod lawn o weithgareddau hamdden / dysgu galwedigaethol / nad | Targed | Targed | Targed | Targed | | Dim materion arwyddocaol wedi'u hadrodd i gyfarfod Chwarter 1 o'r Cyfarfod Monitro Perfformiad Chwarterol (Adran |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| lles<br><br>**Yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni:-**<br>Cael ystod gynhwysfawr o Gyfleoedd Addysg a Dysgu | Gorffen<br><br>31ain Mawrth<br><br>2012 | ydynt yn alwedigaethol.<br><br>B. rhaglenni addysgol yn diwallu anghenion a dyheadau pobl ifanc i adlewyrchu, yn arbennig, y materion o ran dulliau o fyw sy'n eu heffeithio (e.e. camddefnyddio cyffuriau, iechyd rhywiol, ymwybyddiaeth ynghylch alcohol, delwedd/dull o fyw iach).<br><br>C. Gwasanaeth Ieuenctid yn gynhwysol, yn hyrwyddo cyfartaledd cyfle yn lleol ac yn caniatáu i bobl ifanc werthuso/gwneud sylwadau ar y gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer. | | | | | | Addysg a Hamdden) |
| **(CC5) Cytundeb Canlyniad 5**<br>Pobl yn cael yr addysg a'r sgiliau i fyw bywydau ffyniannus, boddhaus<br><br>**Yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni:-**<br>Cyflawniad addysgol yn gwella | Dechrau<br><br>1af Ebrill 2011<br><br>Gorffen<br><br>31ain Mawrth<br><br>2012 | A. Presenoldeb yn gwella.<br><br>B. Gwell cyflawniadau ar gyfer rhai 14-19 oed | Targed | Targed | Targed | Targed | | Yn dal i ddisgwyl canlyniadau Addysg ar gyfer Blwyddyn 1 (2010-11) ac mae hyn yn effeithio ar asesu a gosod targedau priodol ar gyfer blwyddyn 2 (2011-12) ar gyfer y Cytundeb Canlyniad hwn |

Atodiad C

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **(CC6) Cytundeb Canlyniad 6**<br>Cymunedau yn fywiog ac yn ddiogel, gyda mynediad i dai da a chludiant cynaliadwy<br><br>**Yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni:-**<br>Llai o ddigartrefedd | Dechrau<br>1af Ebrill 2011<br>Gorffen<br>31ain Mawrth 2012 | A. Atal digartrefedd a'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy yn cynyddu<br>B. Trosiant anheddau gweigion yn y sector cyhoeddus yn gwella<br>C. Cymaint â phosib o anheddau gweigion yn y sector preifat yn cael eu defnyddio eto | Targed | Targed | Targed | Targed | | Dim materion arwyddocaol wedi'u hadrodd i gyfarfod Chwarter 1 o'r Cyfarfod Monitro Perfformiad Chwarterol (Adran Tai a GC) |
| **(CC7) Cytundeb Canlyniad 7**<br>Mae Cymru yn gymdeithas effeithlon o ran ynni, sy'n cynhyrchu lefelau isel o garbon a gwastraff<br><br>**Yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni:-**<br>Effeithlonrwydd o ran gwastraff ac adnoddau naturiol | Dechrau<br>1af Ebrill 2011<br>Gorffen<br>31ain Mawrth 2012 | A. Ailgylchu cymaint â phosib<br>B. Mwy o arbedion carbon yn ein hamgylchedd gwaith | Targed | Targed | Targed | Targed | Targed | Dim adroddiad diweddaru Chwarter 1 wedi'i dderbyn yn y Cyfarfod Monitro Perfformiad Chwarterol (Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol) ar gyfer y CC hwn |
| **(CC8) Cytundeb Canlyniad 8**<br>Yr Amgylchedd yn cael ei ddiogelu ac yn gynaliadwy<br><br>**Yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni:-**<br>Gwella ansawdd a mwynhad o'r amgylchedd naturiol | Dechrau<br>1af Ebrill 2011<br>Gorffen<br>31ain | A. Isadeiledd sy'n caniatau mynediad i fwynhau'r amgylchedd naturiol.<br>B. Mwy yn cymryd rhan ac yn manteisio ar gyfleoedd i wneud gweithgareddau corfforol yn amgylchedd naturiol unigryw Ynys | Targed | Targed | Targed | Targed | | Ceir 2 elfen i'r CC hwn –<br>1. Creu isadeiledd i ganiatáu mynediad i fwynhau'r amgylchedd naturiol - Gwella llwybrau troed a HTC (**Priffyrdd - heb dderbyn diweddariad Chwarter 1)** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mawrth<br><br>2012 | Môn. | | | | | | 2. Cynyddu nifer y rheiny sy'n cymryd rhan ac yn cael mynediad i gyfleoedd i wneud gweithgareddau corfforol yn amgylchedd naturiol unigryw Ynys Môn<br><br>• Trefnu rhaglenni antur awyr agored i bobl ifanc a hyrwyddo cerdded yn yr amgylchedd naturiol i oedolion (Gwasanaethau Hamdden – yn cyd-fynd â'r amserlen)<br><br>• Darparu cyfleusterau ar y tir ac ar y môr i sicrhau'r manteision a'r effeithiau economaidd mwyaf posib o arfordir Ynys Môn (Datblygu Economaidd – yn cyd-fynd â'r amserlen) |
| **(CC9) Cytundeb Canlyniad 9**<br>Ein hiaith, ein diwylliant a'n treftadaeth yn ffynnu<br><br>**Yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni:-**<br>Mwy o bobl yn mynychu ac yn cymryd rhan yn y celfyddydau, gweithgareddau diwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol | Dechrau<br><br>1af Ebrill 2011<br><br>Gorffen<br><br>31ain Mawrth | A. Ystod eang o weithgareddau a chyfleoedd trwy'r Clwb Celf i ymgysylltu ymhellach â phobl ifanc yr ynys, ac i ehangu darpariaeth i breswylwyr hŷn.<br><br>**B.** Mwy o ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad ymhlith pobl o gynnyrch Twristiaeth Treftadaeth Ynys Môn | Targed | Targed | Targed | Targed | | Er yn cyd-fynd â'r amserlen, mynegodd yr UDE bryderon nad yw rhai camau gweithredu yn rhai UDE uniongyrchol (CC9B.1 – mae'r targedau o ganlyniad i brosiect a arweinir gan Menter Môn, gyda'r UDE fel partner; a CC9B.3 – mae'r UDE yn hyrwyddo atyniadau treftadaeth i annog rhagor o ymweliadau gan longau mordeithio, |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | mewn cydweithrediad â CADW, Menter Môn. | | | | | fodd bynnag, penderfyniad terfynol y rhai sy'n gyfrifol am yr ardaloedd mordeithio ('*Cruise Ground Handlers*') yw hyn).<br><br>**ON** – mae'r awdurdod dan orfodaeth i sicrhau y cymerir pob cam i sicrhau y gwneir popeth sy'n bosibl i sicrhau fod partneriaid yn cyflawni eu rhan hwy o CCau, ond os yw'r methiant i gyflawni oherwydd methiant partneriaeth (ac y gwnaed popeth gan y cyngor i fynd i'r afael â hyn) yna mae arweiniad LlC yn glir na fydd yr awdurdod yn cael ei gosbi yn yr asesiad/sgorio terfynol o'r CC. |
| **(CC10) Cytundeb Canlyniad 10**<br>Mae gwasanaethau cyhoeddus yn effeithlon ac yn darparu gwerth am arian<br><br>**Yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni:-**<br>Rheoli Asedau mewn modd mwy effeithlon ac effeithiol | Dechrau<br><br>1af Ebrill 2011<br><br>Gorffen<br><br>31ain Mawrth<br><br>2012 | A. Canfod a rhoi cyfleoedd ar waith i leihau rhwymedigaethau cynnal a chadw'r awdurdod ac i gyflawni derbyniadau cyfalaf ychwanegol, o fewn yr ystâd mân-ddaliadau<br><br>B. Targedu derbyniadau cyfalaf ac arbedion refeniw a fyddai'n cronni i'r Cyngor o ganlyniad i hynny, er mwyn lleihau ein rhwymedigaethau cynnal a chadw, a chynyddu'r arian | Targed | Targed | Targed | Targed | | Wedi'u cario drosodd o dargedau blwyddyn 1 – ni werthwyd 2 ysgol gan y mynegwyd diddordeb gan grwpiau cymunedol mewn trosglwyddo asedau ac mae hyn wedi achosi oediadau yn y broses (sy'n dal i barhau). Mae gwerthiant Meithrinfa Penrallt wedi methu ac mae hwn yn dal i fod gennym.<br><br>Deialog yn parhau gyda Grwpiau Cymunedol i gadarnhau trosglwyddiadau. Bwriedir paratoi protocol diwygiedig ar gyfer y broses o drosglwyddo asedau er |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | sydd ar gael i gynnal y stoc sydd ar ôl, tra'n annog ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer ein cymunedau. | | | | | mwyn ei fabwysiadu gan y Cyngor i ddarparu darlun cliriach o safleoedd posibl all fod yn destun trosglwyddo asedau.<br><br>Ar hyn o bryd, mae 1 o'r ysgolion y cyfeiriwyd atynt uchod yn destun cynnig i brydlesu. Mae hyn yn dilyn cyfarfod Panel gyda'r Deilydd Portffolio 28/02/11. Os derbynnir y cynnig hwn, ni fydd yr eiddo hwn yn cael ei werthu ond mae'n dal yn bosibl cyflawni arbedion o ran y gwaith cynnal a chadw sydd ei angen os bydd y brydles yn sicrhau mai'r tenant fydd yn gwbl gyfrifol am waith atgyweirio a chynnal a chadw. |

Atodiad D

| **Blaenoriaeth Strategol:** DIOGELU A DATBLYGU ECONOMI'R YNYS | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth Datblygu** *(Byddwn yn)* **:** Datblygu, cefnogi ac yn gweithredu'r Rhaglen Ynys Ynni ar gyfer Ynys Môn ac fel sbardun ar sail ehangach Gogledd Cymru, Cymru, y DU ac Ewrop | | | | | | | | |
| **Camau allweddol** (trwy...) | **Erbyn pryd** | **Meini Prawf / Mesur Llwyddiant –** (Sut rydym yn gwybod pan ydych wedi cyflawni'r cam allweddol?) *Dangosydd Perfformiad /Cam a ymgymerir gennych / neu'r ddau* | **Chwarter 1** | **Chwarter 2** | **Chwarter 3** | **Chwarter 4** | **Statws a Thuedd CMG** | **Risgiau a Sylwadau ar Liniaru'r Risgiau** |
| Trwy gydgysylltu a bwrw ymlaen gyda'r ffrydiau gwaith polisi, caniatadau ac isadeiledd strategol<br><br>Trwy sefydlu, cytuno a mynd ar drywydd cyfleoedd etifeddol a all godi o adeiladu gorsaf Niwclear newydd a phrosiectau ynni eraill<br><br>Trwy ddatblygu prosiectau carbon isel / adnewyddadwy enghreifftiol, gan weithio'n agos â Chyngor Sir Gwynedd<br><br>Trwy archwilio partneriaethau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat yng Nghymru, y DU ac Ewrop | Ebrill '11<br><br>Mawrth '12 | Cydymffurfio â'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd i geisio mabwysiadu Polisi Llety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro<br><br>Cydweithredu â'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd i geisio mabwysiadu Polisi Cludiant (Datblygiadau Mawr) Dros Dro<br><br>Sicrhau fod y cyfleoedd yn y Rhaglen Ynys Ynni yn cael eu hadlewyrchu mewn polisïau corfforaethol lle y bo'n briodol<br><br>Ymateb i bob ymgynghoriad Cenedlaethol (Statudol ac Anstatudol) mewn perthynas â datblygiadau ynni mawr<br><br>Strwythur ffurfiol wedi'i gytuno a gwaith paratoadol wedi'i wneud ar gyfer Adroddiadau Effaith Lleol Safle Niwclear Newydd a Throsglwyddo Isadeiledd | | Targed | Targed | Targed | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ymateb ffurfiol wedi'i gyflwyno i Horizon Nuclear Power ar y Datganiad Ymgynghori Cymunedol – sicrhau fod barnau'n cael eu cynrychioli'n briodol yn yr Adroddiad Ymgynghori (Yn agored i newid yn ddibynnol ar amserlen Horizon)<br><br>Y Cyngor Llawn yn cymeradwyo ac yn mabwysiadu Datganiad Ymgynghori Cymunedol Horizon Nuclear Power (Yn agored i newid yn ddibynnol ar amserlen Horizon)<br><br>Sylfaen y Datganiad Tir Cyffredin wedi'i ddatblygu a'i gytuno â Horizon Nuclear Power a'r Grid Cenedlaethol<br><br>Canlyniadau etifeddiaeth *EIP* wedi'u diffinio'n glir a'u mabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith<br><br>Arbenigedd allanol wedi'i benodi i ddatblygu a rheoli rhaglenni mewn perthynas â chyfleoedd lliniaru ac etifeddiaeth sy'n codi o ddatblygiadau mawr mewn perthynas ag ynni | | | | | | |

Atodiad D

<table>
<tr><td colspan="9">Blaenoriaeth Strategol: DIOGELU A DATBLYGU ECONOMI'R YNYS</td></tr>
<tr><td colspan="9">Blaenoriaeth Datblygu <u>(Byddwn yn)</u> : Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ariannu a phartneriaethau gyda'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat i adfywio'r Ynys</td></tr>
<tr><td>Camau allweddol <u>(trwy...)</u></td><td>Erbyn pryd</td><td>Meini Prawf / Mesur Llwyddiant – <u>(Sut rydym yn gwybod pan ydych wedi cyflawni'r cam allweddol?)</u> Dangosydd Perfformiad /Cam a ymgymerir gennych / neu'r ddau</td><td>Chwarter 1</td><td>Chwarter 2</td><td>Chwarter 3</td><td>Chwarter 4</td><td>Statws a Thuedd CMG</td><td>Risgiau a Sylwadau ar Liniaru'r Risgiau</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Trwy gydweithio gyda phartneriaid allanol i ddylanwadu ar bolisïau'r UE a domestig a datblygiad ariannu i'r dyfodol<br><br>Trwy ddarparu cefnogaeth i gynorthwyo rhanddeiliaid mewnol ac allanol i fanteisio ar gyfleoedd ariannu yn y dyfodol<br><br>Trwy ddynodi cyfleoedd strategol i dynnu arian i lawr i weithredu mentrau a fydd yn ychwanegu gwerth ar gyfer ein preswylwyr a'n cymunedau lleol</td><td>Ebrill '11</td><td rowspan="2">Paratoi fframwaith Adfywio Caergybi ac Ynys Môn i sicrhau cydymffurfiaeth â Chronfa Fuddsoddi Adfywio Cymru<br><br>Sicrhau gwariant refeniw o £163, 000 ar brosiectau Blaenoriaeth y Tair Tref a ddynodwyd<br><br>Gostyngiad o 4 uned mewn cyfraddau unedau gwag o fewn Tair Prif Dref Ynys Môn<br><br>Sicrhau gwariant o £80,000 i gyflenwi'r cynllun gweithredu BRAND<br><br>Ymateb i bob un o ymgynghoriadau'r UE</td><td rowspan="2"></td><td rowspan="2">Targed</td><td rowspan="2">Targed</td><td rowspan="2">Targed</td><td rowspan="2"></td><td rowspan="2">Mae gwariant ar brosiect blaenoriaeth y Tair Tref wedi'i nodi ar hyn o bryd fel risg gan ei fod yn ddibynnol ar ffactorau allanol. Rhagwelir y bydd y gwaith a wneir gan Swyddogion yn tawelu'r sefyllfa.</td></tr>
